Lesley Griffiths AC/AM
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-05-933
Ein cyf/Our ref LG/07501/19

Janet Finch-Saunders AC
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau.

Government.Committee.Business@gov.wales

3 Rhagfyr 2019

Annwyl Janet

Diolch am eich llythyr dyddiedig 22 Tachwedd ynghylch Deiseb P-05-933 Gwahardd pysgod aur rhag cael eu rhoi i ffwrdd mewn ffair.

Mae lles anifeiliaid a pherchenogaeth gyfrifol o anifeiliaid yn un o flaenoriaethau Llywodraeth Cymru a Grŵp Fframwaith Cymru ar gyfer Iechyd a Lles Anifeiliaid (WAHWFG). Rydym wedi ymrwymo i gynnal y safonau lles uchaf posib ar gyfer yr holl anifeiliaid sy'n cael eu cadw yng Nghymru, ymhob cam o'u bywydau.

Rwy'n ymwybodol o bryderon y cyhoedd ynghylch rhoi anifeiliaid yn wobrau. Mae hi eisoes yn ofynnol i berchenogion a cheidwaid anifeiliaid, boed yn barhaol neu dros dro, o dan Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006 ddiwallu anghenion yr anifeiliaid. Mae hyn yn cynnwys pobl sy'n rhoi ac yn derbyn gwobrau. Yn ogystal â hyn, nid yw'n caniatáu rhoi anifeiliaid yn wobrau i unrhyw un o dan 16 oed oni bai ei fod wedi'i hebrwng gan oedolyn.

Mae fy swyddogion wedi bod wrthi'n casglu gwybodaeth am y mater hwn ers rhai misoedd bellach. Mae dau awdurdod lleol yng Nghymru - Caerffili a Chasnewydd - wedi cyflwyno gwaharddiadau gwirfoddol o safbwynt rhoi anifeiliaid yn wobrau ar dir y mae'r Cyngor yn berchen arno a deallaf fod yr RSPCA yn ceisio annog awdurdodau lleol i wneud yr un peth. Deallaf na fyddai Awdurdodau Lleol ond yn arolygu busnesau sy'n rhoi pysgod aur yn wobrau os byddai cwyn ynghylch lles yn cael ei chyflwyno.

Gwnes ysgrifennu'n ddiweddar at yr Urdd Siewmyn, sef corff ambarél y mae ei aelodau'n cynnwys ffeiriau, i wybod mwy am eu hymdrechion i hunan-reoleiddio ac am ba mor gyffredin yw'r gweithgaredd hwn. Er bod trafodaeth bositif eisoes wedi'i chynnal rhwng yr Urdd a swyddog polisi rwy'n aros am ymateb ffurfiol. Ar ôl derbyn yr ymateb hwn bydd modd i mi gynnig cyngor mwy pendant ynghylch unrhyw systemau diogelwch sydd ganddynt yn eu lle a pha mor gyffredin yw'r gweithgaredd yng Nghymru.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Gwnes ymgynghori'n ddiweddar ynghylch Rheoliadau drafft ar gyfer cyflwyno cynllun trwyddedu arfaethedig i Arddangosfeydd Anifeiliaid. Os caiff y cynllun trwyddedu ei gyflwyno caiff Awdurdodau Lleol eu hannog i fynd ati'n bragmataidd i holi a oes modd trwyddedu gweithgaredd. Gan ddibynnu ar y meini prawf terfynol ynghylch trwyddedu a'r amgylchiadau unigol gallai hyn gynnwys arddangos pysgod aur at ddiben eu rhoi'n wobrau. Byddaf yn cyhoeddi adroddiad cryno o'r ymatebion a ddaeth i law, ac yn cyflwyno datganiad yn amlinellu'r camau nesaf cyn diwedd y flwyddyn.

Yn gywir

Lesley

**Lesley Griffiths AC/AM**
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs